VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Amodau i Yrwyr Bro Morgannwg**

1. Bydd y perchennog bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a'r amodau a nodir yma o hyn ymlaen.

**Diffiniadau**

2. Yn yr amodau hyn mae'r diffiniadau canlynol, fel y'u diffinnir yn adran 80 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn gymwys:
   (a) ystyr 'swyddog awdurdodedig' yw unrhyw swyddog cyngor dosbarth a awdurdodir yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion y Rhan hon o'r Ddeddf hon.
   (b) ystyr 'y Cyngor' yw Cyngor Bro Morgannwg.
   (c) ystyr 'yr Awdurdod Trwyddedu' yw Awdurdod Trwyddedu Cyngor Bro Morgannwg.
   (d) mae 'y perchennog' yn cynnwys rhan-berchennog ac, mewn perthynas â cherbyd sy'n destun cytundeb hurio neu gytundeb hurbwrcasu, ystyr 'y perchennog' yw'r person sy'n meddu ar y cerbyd o dan y cytundeb hwnnw.
   (e) ystyr 'gweithredu' yw gwneud darpariaeth yn ystod busnes ar gyfer gwahodd neu dderbyn archebion ar gyfer cerbyd hurio preifat.
   (f) ystyr 'mesurydd tacsi' yw unrhyw ddyfais ar gyfer cyfrifo'r pris sydd i'w godi mewn perthynas ag unrhyw daith mewn cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat drwy gyfeirio at y pellter a deithiwyd neu'r amser sydd wedi mynd heibio ers dechrau'r daith, neu gyfuniad o'r ddau.
   (g) ystyr 'cerbyd' yw cerbyd hurio preifat sy'n golygu cerbyd modur a gynhyrchwyd neu a addaswyd i ddal llai na naw teithiwr, ac eithrio cerbyd hacni neu gerbyd gwasanaeth cyhoeddus neu gab Llundain neu dram a ddarperir at ddibenion hurio gyda gwasanaethau gyrrwr er mwyn cludo teithwyr; neu gerbyd hacni fel y'i ddiffinnir gan adran 36 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Sef *"every wheeled carriage, whatever may be its form or construction, used in standing or plying for hire in any street within the prescribed distance , and every carriage standing upon any street within the prescribed distance, having thereon any numbered plate required by this or the special Act to be fixed upon a hackney carriage, or having thereon any plate resembling or intended to resemble any such plate as aforesaid, shall be deemed to be a hackney carriage within the meaning of this Act; and in all proceedings at law or*

*otherwise the term 'hackney carriage' shall be sufficient to describe any such carriage."*

## Cyffredinol

3. Nid yw'r drwydded hon yn drosglwyddadwy.

4. Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig am unrhyw newid enw, cyfeiriad neu gyflogwr o fewn saith diwrnod i'r newid.

## Euogfarnau

5. Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig, o fewn saith diwrnod, yn yr achosion canlynol:
    (a) mae'n cael ei farnu'n euog o unrhyw drosedd o dan y Deddfau Traffig Ffyrdd neu unrhyw reoliadau wedi'u gwneud oddi tanynt, neu
    (b) mae'n cael ei farnu'n euog o unrhyw drosedd neu'n derbyn rhybudd, rhybuddiad, hysbysiad cosb benodedig neu unrhyw fath arall o hysbysiad cosb.
    (c) mae'n destun unrhyw ymchwiliad troseddol sydd ar y gweill a chanlyniad yr ymchwiliad hwnnw.

6. Bydd y trwyddedai'n rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith am unrhyw newid neu ddirywiad i'w iechyd sy'n effeithio ar ei drwydded DVLA, yn ystod cyfnod ei drwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat o fewn 7 diwrnod i'r newid. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded presennol gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i ffitrwydd parhaus i yrru, gan ei feddyg teulu, yn ystod cyfnod y drwydded. Bydd tystiolaeth feddygol o'r fath yn cael ei chyflwyno gan y trwyddedai i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn pedwar diwrnod ar ddeg.

## Eiddo coll

7. Bydd y gyrrwr yn syth ar ôl gollwng cwsmer, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl hynny, yn edrych yn y cerbyd am unrhyw eiddo a all fod wedi'i adael ar ddamwain.

8. Bydd y gyrrwr, os yw unrhyw eiddo wedi'i adael yn y cerbyd gan unrhyw berson a allai fod wedi'i gludo yn y cerbyd yn cael ei ddarganfod, neu ei roi iddo, ei gario o fewn wyth awr a deugain, os nad yw'n cael ei hawlio gan neu ar ran ei berchennog yn gynt, i orsaf heddlu yn ardal Bro Morgannwg a'i adael yng ngofal y swyddog sy'n gyfrifol am y swyddfa ar ôl iddo roi derbynneb ar ei gyfer.

## Gyrrwr i fod yn lân ac yn barchus

9. Bydd y gyrrwr bob amser yn lân ac yn barchus yn ei wisg a'i berson.

10. Bydd y gyrrwr bob amser yn ymddwyn mewn modd sifil, trefnus a rhesymol.

11. Bydd y gyrrwr yn cymryd yr holl ragofalon rhesymol i sicrhau diogelwch y bobl sy'n cael eu cludo neu sy'n dod i mewn i'r cerbyd neu'n ei adael.

**Llwybr Byrraf**

12. Rhaid i'r gyrrwr gymryd y llwybr byrraf ymarferol yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr huriwr. Os nad yw'n bosibl, rhaid iddo roi gwybod i'r huriwr o'r rheswm dros beidio â gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol a'r llwybr a awgrymir yn ei le.

**Bathodyn Gyrrwr**

13. Bydd bathodyn y gyrrwr yn parhau'n eiddo i'r Awdurdod Trwyddedu a bydd yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdod Trwyddedu adeg adnewyddu, atal, dirymu neu beidio ag adnewyddu'r drwydded hon.

14. Bydd y gyrrwr, wrth yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, yn gwisgo mewn safle amlwg a gweladwy y bathodyn gyrrwr a roddwyd i'r trwyddedai gan yr Awdurdod Trwyddedu.

15. Bydd y gyrrwr yn cyflwyno ei fathodyn i aelodau o'r cyhoedd, fel y gallant weld y manylion a gedwir ar y bathodyn hwnnw, ar gais.

16. Efallai y bydd angen ffotograffau newydd os yw gyrrwr wedi newid ei olwg i'r fath raddau fel nad yw'r ffotograff cyfredol yn adnabyddadwy ar unwaith.

**Plât**

17. Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod y plât neu'r disg wedi'i osod ar gefn y tu allan i'r cerbyd a'i fod yn amlwg bob amser ac nad yw'n cael ei guddio mewn unrhyw ffordd o gwbl.

**Prydlondeb**

18. Bydd y gyrrwr sydd wedi'i hurio i fod yn bresennol gyda cherbyd ar amser ac mewn lle penodedig, oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal am reswm digonol, yn cyrraedd y lleoliad hwnnw ar yr amser penodedig yn brydlon.

19. Os yw'r gyrrwr yn canfod wrth gyrraedd nad yw'n gallu darparu'r gwasanaeth am ba reswm bynnag, bydd yn ceisio sicrhau'n rhesymol fod cerbyd newydd addas yn cael ei ddarparu i'w ddefnyddio gan yr huriwr cyn gynted â phosibl.

**Llygredd Sŵn**

20. Ni fydd y gyrrwr yn seinio corn y cerbyd i roi gwybod i deithwyr ei fod wedi cyrraedd y man casglu.

21. Bydd y trwyddedai’n sicrhau nad yw unrhyw radios dwyffordd neu setiau di-wifr sydd wedi'u gosod ar y cerbyd yn cael eu gweithredu mewn modd sy’n achosi aflonyddwch oherwydd eu defnydd uchel, parhaus neu dro ar ôl tro.

22. Ni fydd y gyrrwr ar unrhyw adeg yn achosi nac yn caniatáu i sŵn neu luniau a allyrrir gan unrhyw radio, chwaraewr DVD neu offer arall a grybwyllwyd yn flaenorol yn y cerbyd y mae'n ei yrru achosi niwsans neu aflonyddwch i unrhyw bersonau, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.

23. Ni fydd y gyrrwr ar unrhyw adeg yn achosi nac yn caniatáu defnyddio chwaraewyr DVD neu sgriniau teledu ym maes gweledigad y gyrrwr neu sy’n achosi niwsans i’r gyrrwr neu’n tynnu sylw'r gyrrwr wrth weithredu'r cerbyd.

**Gorlwytho**

24. Ni fydd gyrrwr cerbyd trwyddedig yn cludo nac yn caniatáu cludo yn y cerbyd fwy na'r nifer o bobl a bennir yn y drwydded a roddwyd mewn perthynas â'r cerbyd.

**Cymorth i Deithwyr**

25. Ar gyfer unrhyw deithiwr, bydd gyrrwr cerbyd trwyddedig yn:

(a) cludo nifer resymol o fagiau;
(b) cynnig cymorth rhesymol wrth lwytho a dadlwytho;
(c) cynnig cymorth rhesymol wrth symud bagiau i neu o fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf neu le lle gall gasglu neu ollwng person o’r fath.

**Trwydded Yrru**

26. Bydd y gyrrwr yn cyflwyno, o fewn 5 diwrnod, i unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu, ei drwydded yrru DVLA, os rhoddir cais ysgrifenedig iddo wneud hynny gan unrhyw swyddog awdurdodedig o'r fath.

**Derbynebau**

27. Ar gais teithiwr, rhaid rhoi derbynneb ysgrifenedig ar gyfer y pris a godwyd yn disgrifio'r daith dan sylw ac yn nodi rhifau’r cerbyd a’r drwydded yrru, y tariff (os yw'n berthnasol), pris y daith, y man casglu, y cyrchfan ac amser dechrau’r daith.

**Cŵn Tywys, Clyw a Chymorth**

28. Bydd y gyrrwr yn cario unrhyw gŵn tywys, clyw neu gŵn cymorth eraill, yn rhad ac am ddim os ydynt yng nghwmni pobl anabl mewn cerbyd hurio preifat trwyddedig a bydd yn caniatáu i unrhyw gi o’r fath aros gyda'r teithiwr am hyd y daith. Ni fydd yr amod hwn yn berthnasol os oes gan y gyrrwr eithriad meddygol a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn yr un modd â'r hyn a roddir i yrrwr cerbyd Hacni o dan ddarpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod unrhyw Hysbysiad Eithrio o'r fath yn cael ei arddangos yn y cerbyd fel nad yw'n achosi rhwystr ar unrhyw ffenestr y cerbyd yn yr un modd â'r hyn a bennir o dan ddarpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar

sail Anabledd 1995 (Tacsis) (Cario Cŵn Tywys etc) (Lloegr a Chymru) Rheoliadau 2000.